Nodiadau arweiniol ar gyfer llenwi'r ffurflen gwyno: Perthi Uchel

Nodiadau cyffredinol

Mae'r nodiadau arweiniol hyn i'ch helpu i lenwi'r ffurflen i wneud cwyn am berthi uchel cyfagos. Dylech hefyd ddarllen y daflen 'Perthi Uchel: Cwyno i'r cyngor'. Bydd oedi wrth ystyried eich cwyn os na fyddwch yn llenwi'r ffurflen yn iawn neu os nad ydych yn darparu'r wybodaeth y gofynnir amdani.

1. Manylion cyswllt

1.1 Y person hwn fydd ein prif gyswllt ar gyfer pob mater sy'n ymwneud â'r gŵyn hon. Byddwn yn cyfeirio pob ymholiad a gohebiaeth ato. Cofiwch hyn. Mae rhai dogfennau y mae'n ofynnol i ni, yn ôl y gyfraith, eu hanfon at berchennog a deiliad yr eiddo yr effeithir arno. Mae'r rhain yn cynnwys ein penderfyniad ar y gŵyn.

1.2 Ticiwch y blwch 'ydw' os ydych yn gynghorydd proffesiynol, yn berthynas, yn ffrind neu'n gynrychiolydd arall.

1.3 Ticiwch y blwch 'ie' os yw'n well gennych gysylltu â chi drwy e-bost. Ni allwn anfon dogfennau atoch yn electronig oni bai eich bod yn cytuno.

2. Yr eiddo y mae'r gwrych yn effeithio arno

2.1 Cadwch y disgrifiad yn fyr. Er enghraifft, fflat uwchben siopau; cartref a meddygfa wedi'u cyfuno. Rhaid i'r eiddo gynnwys annedd neu fel arall ni allwn ystyried y gŵyn.

2.2 Mae angen yr wybodaeth hon arnom oherwydd bydd yn rhaid i ni gysylltu â'r person hwn i drefnu i ymweld â'r eiddo y mae'r gwrych yn effeithio arno.

2.3 Dyma'r person sy'n berchen ar rydd-ddaliad yr eiddo - nid cwmni rheoli. Dylai eich cytundeb tenantiaeth neu brydles gynnwys yr wybodaeth hon. Os na, gallwch wirio gyda'r Gofrestrfa Tir. Mae'r ffurflen berthnasol (313) ar ei gwefan (www.landregistry.gov.uk) neu gellir ei chael o'r Swyddfa Leol. Y ffi gyfredol ar gyfer y gwasanaeth hwn yw £4, os ydych yn gwybod cyfeiriad post llawn yr eiddo.

2.4 Nid oes rhaid i chi fod yn berchennog eiddo y mae perthi uchel yn effeithio arno i wneud cwyn. Ond dylech roi gwybod i'r perchennog beth rydych yn ei wneud. Nodiadau arweiniol ar gyfer llenwi'r ffurflen gwyno: Perthi Uchel.

3. Lleoliad y berth

3.1 Mae angen yr wybodaeth hon arnom oherwydd bydd yn rhaid i ni gysylltu â'r bobl hyn i gael eu hochr hwy o bethau, ac i drefnu i ymweld â'r safle lle mae'r berth yn tyfu.

3.2 Fel arfer, dyma'r person rydych wedi siarad ag ef wrth i chi geisio gytuno ar ateb i'ch problemau perthi.

3.3 Os oes gennych unrhyw amheuaeth ynghylch pwy sy'n berchen ar yr eiddo, gweler y nodyn ar gwestiwn 2.4 uchod.

4. Y berth

Darparwch gynllun hefyd sy'n dangos lleoliad y berth a'r eiddo cyfagos. Wrth lunio eich cynllun, gwnewch yn siŵr eich bod yn:

- Enwi'r holl ffyrdd perthnasol
- •Nodi lleoliad eich tŷ a'r eiddo lle mae'r berth yn tyfu. Dylid rhifo neu enwi'r eiddo.
- Marcio'n glir lleoliad y berth a pha mor bell y mae'n ymestyn.

Hyd yn oed os ydych wedi ticio'r holl flychau 'le' yn yr adran hon, nid yw o reidrwydd yn golygu bod y berth yn bodloni'r holl brofion cyfreithiol. Mae'n rhaid i ni benderfynu o hyd a yw'r berth yn ei chyfanrwydd yn atal golau neu a yw'n atal person neu rywbeth rhag ei phasio. Dyna pam mae angen y llun arnom.

5. Sail y gŵyn

Bydd yn helpu os byddwch yn darparu cymaint o wybodaeth ag y gallwch ond yn ei chadw'n ffeithiol. Canolbwyntiwch ar y berth a'r problemau ymarferol y mae'n eu hachosi gan ei bod yn rhy uchel.

Ni allwn ystyried problemau nad ydynt yn gysylltiedig ag uchder y berth. Er enghraifft, os yw gwreiddiau'r berth yn gwthio llwybr i fyny.

Ni allwn ychwaith ystyried pethau nad ydynt yn ymwneud â'r berth dan sylw. Er enghraifft, bod pobl eraill yn tocio'u perthi ar uchder is; neu fod y pryder yn eich gwneud yn sâl.

Dylech gynnwys copïau o unrhyw adroddiadau proffesiynol yr ydych wedi'u paratoi. Os ydych yn cwyno am fod y perthi'n atal golau, nodwch pa ffordd sydd i'r gogledd ar eich cynllun (gweler y nodyn ar adran 4 uchod) a rhowch fesuriadau perthnasol (e.e. maint yr ardd, pellter rhwng y berth ac unrhyw ffenestri yr effeithir arnynt). Rhaid i bob mesuriad fod mewn metrau (m) a chentimetrau (cm).

6. Ymdrechion blaenorol i ddatrys y gŵyn

Cadwch y disgrifiadau'n fyr ond dywedwch ba ymagwedd a ddefnyddiwyd gennych (e.e. wyneb yn wyneb, ffôn, llythyr) a beth oedd y canlyniad.

Enghraifft 1

13 Tachwedd 2004 – wedi ffonio i ofyn a allem drafod perthi; cyfarfod ar 20 Tachwedd ond nid oeddem yn gallu cytuno ar ateb; 14 Rhagfyr - canolwyr yn ymweld; cynnal cyfarfod ar y cyd ond nid oeddem yn gallu dod o hyd i ateb yr oedd y ddau ohonom yn hapus ag ef; 4 Ionawr 2005 - Ysgrifennais i hysbysu cymydog y byddwn yn cwyno i'r cyngor.

Enghraifft 2

13 Tachwedd 2004 - ysgrifennais i ofyn a allem drafod y berth; 2 wythnos yn ddiweddarach, dim ateb o hyd; 4 Rhagfyr 2004 - ysgrifennais i ofyn a fyddai'n siarad â chanolwr; 2 wythnos yn ddiweddarach, dim ateb o hyd; 18 Rhagfyr 2004 -Ysgrifennais i hysbysu cymydog y byddwn yn cwyno i'r cyngor.

Nid oes angen anfon copïau o'r holl ohebiaeth gyda'ch cymydog am y berth - yn enwedig os yw'r anghydfod yn un hirhoedlog. Dim ond tystiolaeth o'ch ymdrechion diweddaraf i ddod â'r mater i ben y mae angen i chi ei darparu.

7. Gwirio ac anfon

Gwnewch yn siŵr eich bod wedi ticio'r holl flychau. Dylech wneud eich siec yn daladwy i 'Cyngor Abertawe'.